



Valleys to Coast

Polisi Iechyd a Diogelwch

Perchennog:


Prif Weithredwr

Arweinydd Atebol:

Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu, Asedau a Chynaliadwyedd



Rheoli Polisi

Lefel Polisi	Y Bwrdd
Cyfeirnod Polisi	HSS.POL.001
Dolen i'r Strategaeth	Cynllun Corfforaethol
Rheoli Fersiwn	
Cymeradwywyd gan	Y Bwrdd
Ymgynghoriad	Tîm Arwain Penaethiaid Adrannau Rheolwyr
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)	Cynhaliwyd EIA mewn perthynas â'r polisi hwn
Dyddiad yr adolygiad nesaf	Ebrill 2025
Llofnodwyd gan	

TEITL POLISI: Polisi Iechyd a Diogelwch

Perchennog: Prif Weithredwr

Arweinydd Atebol: Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu, Asedau a Chynaliadwyedd



	Joanne Oak Prif Weithredwr
--	-------------------------------

Cynnwys

Rheoli Polisi	1
Cynnwys	2
Datganiad	3
Cyd-destun Cyfreithiol	4
Sefydliad	4
Cyfrifoldebau	5
Trefniadau	12
Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch Cyflogwr	12
Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch Landlord	14



Datganiad

Mae Tai Cymoedd i'r Arfordir yn cydnabod ei ddyletswyddau cyfreithiol a moesol a bod iechyd a diogelwch cydweithwyr, cwsmeriaid, contractwyr a phobl eraill y gallai ei weithredoedd effeithio arnynt, yn hollbwysig.

Mae gan y sefydliad drefniadau ar waith ar gyfer rheoli cyfrifoldebau'r cyflogwr a'r landlord o ran cydymffurfio ag iechyd a diogelwch.

Mae y Cymoedd i'r Arfordir yn cydnabod bod angen i bob cydweithiwr weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod risgiau anaf personol a pheryglon i iechyd yn cael eu lleihau i'r eithaf yng nghyd-destun gweithgareddau'r sefydliad.

Dyma'r prif feysydd:

- Datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarn
- Defnyddio'r broses Cynllunio, Gwneud, Gwirio a Gweithredu ar gyfer pob agwedd ar reoli a gwella iechyd, diogelwch a llesiant
- Nodi a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyfredol ac yn y dyfodol;
- Cwblhau asesiadau risg addas a digonol;
- Datblygu a gweithredu gweithdrefnau effeithiol a systemau gwaith diogel;
- Ymgynghori a chyfathrebu â chydweithwyr a chwsmeriaid;
- Darparu gwybodaeth, hyfforddiant, cyfarwyddyd a goruchwyliaeth addas;
- Darparu amgylchedd gwaith iach gan gynnwys cyfleusterau llesiant digonol;



- Sicrhau bod cerbydau, offer, cyfarpar a sylweddau sy'n beryglus i iechyd yn cael eu defnyddio'n ddiogel;
- Monitro ac adolygu gweithgareddau'r sefydliad i ddarparu sicrwydd a nodi cyfleoedd i wella'n barhaus.

Mae gweithredu'r polisi hwn yn llwyddiannus yn ei gwneud yn ofynnol i holl gynrychiolwyr y Cymoedd i'r Arfordir gymryd cyfrifoldeb a gofal rhesymol dros eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac unrhyw berson arall y gallai eu gweithredoedd effeithio arnynt.

Bydd disgwyl i holl gynrychiolwyr y Cymoedd i'r Arfordir ddangos eu hymrwymiad drwy wneud y canlynol:

- Dilyn polisiau, gweithdrefnau a systemau gwaith diogel;
- Cydweithredu â'r sefydliad a gyda'i gilydd;
- Dangos agwedd gadarnhaol a rhagweithiol tuag at iechyd a diogelwch;
- Nodi a bwrw ymlaen â chyfleoedd i wella.

Mae'r sefydliad yn cymryd iechyd a diogelwch o ddifrif a gall methu â chydymffurfio arwain at gamau disgyblu.

Cyd-destun Cyfreithiol

Mae'r Polisi hwn yn disgrifio sefydliad, cyfrifoldebau a threfniadau y Cymoedd i'r Arfordir sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r prif ddeddfwriaeth ganlynol (fel y'i diwygiwyd a'i chefnogi gan



is-ddeddfwriaeth):

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Deddf Tai 2014
- Deddf Rhentu Cartrefi 2016
- Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957 a 1984
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Deddf Diogelwch Tân 2021
- Deddf Cydraddoldeb 2010

Bydd pob agwedd ar y nodweddion gwarchoddedig yn cael eu hystyried fel rhan o'r polisi hwn a'n trefniadau ni: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Sefydliad

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithgareddau'r Cymoedd i'r Arfordir ac mae'n berthnasol i bob cynrychiolydd, gan gynnwys cydweithwyr, contractwyr, ymgynghorwyr a phobl eraill a allai gael eu penodi i weithredu ar ran y sefydliad.



Mae gan y Cymoedd i'r Arfordir gyfrifoldebau iechyd a diogelwch fel:

- Cyflogwr cyfrifol sy'n sicrhau diogelwch ac iechyd cydweithwyr, contractwyr a phobl eraill y gallai gweithgareddau'r sefydliad effeithio arnynt. Cyfeirir at hyn fel 'iechyd a diogelwch galwedigaethol neu gyflogwr'.
- Landlord cymdeithasol gyfrifol sy'n darparu cartrefi, lleoedd a gwasanaethau diogel ac iach. Cyfeirir at hyn fel 'cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch y landlord'

Wrth gyflawni'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig, bydd y sefydliad yn ymgynghori â'r canlynol ac yn eu diweddarau:

- Cydweithwyr; drwy Grwpiau Iechyd a Diogelwch mewnol ac Undebau Llafur
- Cwsmeriaid; drwy weithgareddau ymgysylltu ac arolygon
- Contractwyr a Chyflenwyr; drwy reoli contractau

Cyfrifoldebau

Bwrdd y Cymoedd i'r Arfordir (*Lefel 1 - Strategol*)

Yn bennaf gyfrifol am sicrhau:

- Meithrin a chynnal diwylliant iechyd a diogelwch priodol;
- Rhoddir blaenoriaeth uchel i iechyd, diogelwch a llesiant;



- Bod trefniadau effeithiol yn cael eu sefydlu a'u rhoi ar waith i reoli risgiau iechyd a diogelwch galwedigaethol a landlord ar lefelau strategol a gweithredol;
- Bod perfformiad o ran iechyd, diogelwch a chydymffurfiaeth yn cael ei fonitro;
- Bod sicrwydd yn cael ei ddarparu;
- Bod methiannau iechyd a diogelwch sylweddol yn cael eu hymchwilio a'u hadrodd;
- Y rhoddir ystyriaeth i effaith bosibl penderfyniadau o ran iechyd a diogelwch;
- Bod y sefydliad yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a'r arferion da diweddaraf.

Prif Weithredwr (*Lefel 1 – Strategol*)

Yn atebol i'r Bwrdd, a gyda chyfrifoldeb dirprwyedig gan y Bwrdd dros yr holl faterion sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a chydymffurfio ac am sicrhau bod y sefydliad yn cael y strwythur a'r adnoddau sefydliadol angenrheidiol i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso system reoli addas a digonol. Bydd y Prif Weithredwr yn:

- Darparu arweinyddiaeth iechyd a diogelwch strategol
- Hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol drwy ddangos ymrwymiad clir i gyflawni safonau uchel o ran rheoli iechyd a diogelwch ac annog pob cydweithiwr i gyfrannu at wella safonau;



- Datblygu'r polisi iechyd a diogelwch a sicrhau bod y polisi a'r holl drefniadau yn addas ac yn ddigonol
- Sicrhau bod y polisi iechyd a diogelwch yn cael ei adolygu, ei ddiweddarau, ei ddeall a'i weithredu'n effeithiol;
- Cytuno ar safonau perfformiad ar gyfer iechyd, diogelwch a llesiant;
- Sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu ar gyfer gweithredu'r polisi hwn yn effeithiol;
- Hyrwyddo cyfleoedd ymgynghori priodol a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gydweithwyr mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a llesiant;
- Sicrhau bod rheoli iechyd a diogelwch yn rhan annatod o strategaethau a chynllun corfforaethol y Cymoedd i'r Arfordir a bod yr holl weithgareddau'n cydymffurfio â'r gyfraith ac yn gyson ag arferion gorau;
- Sicrhau bod polisi iechyd a diogelwch yn cael ei adolygu drwy adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ac yn ogystal, y bydd gwybodaeth yn cael ei darparu i'r Bwrdd gyda digon o ansawdd a chysondeb i sicrhau llywodraethu da;
- Penodi gwasanaethau arbenigol i ddarparu cyngor penodol yn ôl yr angen.

Cyfarwyddwyr Gweithredol (*Lefel 1 – Strategol*)

Yn atebol i'r Prif Weithredwr ac yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth iechyd, diogelwch a llesiant a sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei roi ar



waith ar gyfer pob maes o dan eu rheolaeth. Yn hyn o beth byddant yn:

- Darparu arweinyddiaeth iechyd, diogelwch a llesiant strategol;
- Hyrwyddo diwylliant iechyd, diogelwch a llesiant cadarnhaol drwy ddangos ymrwymiad clir i gyflawni safonau uchel ac annog pob cydweithiwr i gyfrannu at wella safonau;
- Sicrhau bod amgylchedd iach a diogel yn cael ei ddarparu i bawb;
- Sicrhau bod adnoddau yn cael eu darparu ar gyfer iechyd, diogelwch a llesiant cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- Monitro perfformiad a chymryd camau cywiro lle bo angen;
- Sicrhau bod anghenion hyfforddiant diogelwch cydweithwyr yn cael eu nodi a'u diwallu, ac yn ogystal bod gwybodaeth a chyfarwyddyd yn cael eu dosbarthu i'r holl bartïon perthnasol;
- Adolygu, arolygu a gwella trefniadau iechyd a diogelwch gyda'r nod o wella perfformiad;
- Sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â chydweithwyr;
- Cymryd rhan yn y gwaith o ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol a chymryd camau i'w cywiro;
- Hyrwyddo diwylliant lle mae iechyd, diogelwch a llesiant cydweithwyr yn flaenoriaeth sefydliadol, arwain drwy esiampl, mynd ati i hyrwyddo mentrau ac arferion da; monitro perfformiad iechyd, diogelwch a llesiant.



Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr (*Lefel 2 – Tîm Rheoli*)

Bydd Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr yn:

- Darparu arweinyddiaeth iechyd, diogelwch a llesiant o fewn eu swyddogaeth;
- Hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o fewn eu swyddogaeth drwy ddangos ymrwymiad clir i gyflawni safonau uchel o ran rheoli iechyd a diogelwch ac annog pob cydweithiwr i gyfrannu at wella safonau;
- Sicrhau bod rhaglenni iechyd a diogelwch yn cael eu gweithredu a'u monitro;
- Sicrhau bod yr holl adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol;
- Sicrhau bod y trefniadau ar gyfer eu swyddogaeth yn addas, yn ddigonol ac yn cael eu gweithredu'n briodol;
- Sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro a'i reoli'n effeithiol o fewn eu swyddogaeth;
- Cymryd perchnogaeth dros y gweithdrefnau y maent yn arweinydd atebol drostynt;
- Tynnu sylw'r Cyfarwyddwr Gweithredol at unrhyw bryderon difrifol neu achosion o dorri'r gyfraith y maent yn ymwybodol ohonynt.

Rheolwyr Llinell a Goruchwylwyr (*Lefelau 3 a 4 – Tactegol*)

Rôl Rheolwyr Llinell a Goruchwylwyr yw cefnogi'r gwaith o weithredu'r Polisi a'r trefniadau hyn. Bydd rheolwyr llinell a goruchwylwyr yn:



- Hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o fewn eu swyddogaeth drwy ddangos ymrwymiad clir i gyflawni safonau uchel o ran rheoli iechyd a diogelwch ac annog pob cydweithiwr i gyfrannu at wella safonau;
- Cynnal asesiadau risg a'u cadw'n gyfredol a sefydlu mesurau rheoli effeithiol;
- Sicrhau bod rhaglenni iechyd a diogelwch yn gydgysylltiedig;
- Sicrhau bod cydweithwyr yn eu tîm yn ymgysylltu ac yn cydweithredu mewn materion iechyd a diogelwch, yn deall yr asesiadau risg perthnasol ac yn dilyn systemau gwaith diogel;
- Sicrhau bod iechyd, diogelwch a llesiant yn eitem ar agenda pob cyfarfod tîm;
- Annog pob cydweithiwr i ddangos ymddygiad diogel, meithrin diwylliant diogelwch cadarnhaol a rhoi gwybod am bob digwyddiad (gan gynnwys damweiniau a damweiniau a fu bron â digwydd) yn brydlon;
- Ymchwilio i bob digwyddiad (gan gynnwys damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd) gan gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i ddelio â'r sefyllfa ac atal hyn rhag digwydd eto;
- Sicrhau bod cydweithwyr yn eu tîm yn derbyn gwybodaeth, hyfforddiant, cyfarwyddyd a goruchwyliaeth briodol;
- Sicrhau bod cydweithwyr yn mynychu'r apwyntiadau iechyd galwedigaethol gofynnol.

Cydweithwyr (*Lefel 5 – Gweithredol*)



Cyfrifoldeb pob cydweithiwr yw:

- Cymryd camau rhesymol i ofalu am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, ac iechyd a diogelwch pobl eraill y gallai eu gweithgarwch gwaith effeithio arnynt;
- Ymgysylltu'n gadarnhaol a chydweithio â chydweithwyr, contractwyr a chwsmeriaid ar faterion iechyd, diogelwch a llesiant;
- Rhoi gwybod am unrhyw bryderon difrifol, na ellir eu datrys drwy drefniadau iechyd a diogelwch sefydledig, yn unol â'r 'Weithdrefn Codi Pryderon';
- Dangos ymddygiad diogel a meithrin diwylliant diogelwch cadarnhaol drwy wneud y canlynol:
 - Ymarfer ymddygiad diogel ac iach bob amser
 - rhoi gwybod am bob digwyddiad (gan gynnwys damweiniau a damweiniau a fu bron â digwydd) yn brydlon;
 - Cwblhau'r holl hyfforddiant perthnasol;
 - Defnyddio cyfarpar a deunyddiau gwaith yn gywir, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol;
 - Dilyn holl bolisiau, gweithdrefnau, asesiadau risg a systemau gwaith diogel y cwmni;
 - Peidio ag ymyrryd ag unrhyw beth a ddarperir at ddibenion sicrhau iechyd a diogelwch, na chamdefnyddio unrhyw beth o'r fath;



Rheolwr Iechyd a Diogelwch

Yn atebol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu, Asedau a Chynaliadwyedd a bydd yn sicrhau bod y sefydliad yn cael cyngor iechyd, diogelwch a llesiant cymwys sy'n gymesur â maint a chymhlethdod gweithgareddau a risgiau iechyd a diogelwch y sefydliad.

Rôl y Rheolwr Iechyd a Diogelwch yw sicrhau bod system rheoli iechyd a diogelwch y sefydliad yn addas ac yn ddigonol. Bydd y rheolwr iechyd a diogelwch yn:

- Hyrwyddo datblygiad diwylliant iechyd, diogelwch a llesiant y sefydliad ar y cyd â'r Rheolwr Gweithrediadau Pobl
- Darparu cyngor ac arweiniad cymwys ar iechyd a diogelwch i'r sefydliad;
- Cadw golwg ar ddeddfwriaeth iechyd, diogelwch a llesiant sy'n newid;
- Datblygu a chynnal system reoli addas a digonol wedi'i chofnodi;
- Datblygu a chynnal dangosyddion perfformiad priodol a monitro perfformiad; gan dynnu sylw at dueddiadau a nodwyd ac ymateb yn briodol iddynt;
- Llunio adroddiadau cyfnodol sy'n rhoi sicrwydd i'r Tîm Arwain a'r Bwrdd;
- Ymchwilio i ddigwyddiadau sylweddol er mwyn pennu achosion sylfaenol a rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella ar waith;
- Cysylltu ag awdurdodau gorfodi yn ôl yr angen;



- Cefnogi grwpiau iechyd a diogelwch y cwmni i gyflawni eu swyddogaethau;
- Cyngori'r sefydliad ar hyfforddiant a datblygiad iechyd a diogelwch;
- Cydlynu dull y sefydliad o asesu risg a systemau gwaith diogel;
- Cynnal rhwydwaith cyfathrebu gyda sefydliadau allanol i sicrhau arfer da a, lle bo angen, casglu gwybodaeth, ymarferion meincnodi, ac ati;

Contractwyr sy'n atebol i Reolwr Contract perthnasol y Cymoedd i'r Arfordir

Bydd y Cymoedd i'r Arfordir yn sicrhau bod yr holl contractwyr yn dangos y cymwyseddau iechyd a diogelwch gofynnol sy'n gymesur â maint a chymhlethdod eu gweithgareddau cyn eu penodi. Bydd pob contractwr yn:

- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol a'r holl rwymedigaethau cytundebol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth diogel (gan gynnwys Polisi Iechyd a Diogelwch y Cymoedd i'r Arfordir);
- Cydweithredu â'r Cymoedd i'r Arfordir a chydlynu gweithgareddau gan gynnwys rhannu gwybodaeth berthnasol am iechyd a diogelwch;
- Sicrhau bod asesiadau risg addas a digonol yn cael eu cynnal a'u cyfathrebu a'u gweithredu'n effeithiol;
- Darparu goruchwyliaeth ddigonol i sicrhau bod amodau diogel ac



ymddygiad diogel yn cael eu cynnal;

- Adrodd, cofnodi ac ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd;

Undebau Llafur

Yn ogystal â chynrychioli cydweithwyr ar bob mater sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, bydd cynrychiolwyr Undebau Llafur yn cael y cyfleuster i:

- Archwilio'r gweithle o bryd i'w gilydd am beryglon iechyd a diogelwch; cyflwyno sylwadau ac ymchwilio i gwynion a godir gan aelodau undebau llafur a chydweithwyr eraill
- Cynrychioli cydweithwyr mewn ymgynghoriadau iechyd a diogelwch;
- Mynychu cyfarfodydd grwpiau iechyd a diogelwch penodol mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r swyddogaethau uchod.



Trefniadau

I gefnogi'r Polisi hwn ac i sicrhau bod y sefydliad yn rheoli risgiau perthnasol yn effeithiol, mae'r trefniadau canlynol wedi'u sefydlu:

Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch Cyflogwr

Teitl	Arweinydd Atebol
Cofnodi damweiniau, digwyddiadau a damweiniau a fu bron â digwydd	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Cyfarpar Sgrin Arddangos (DSE)	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Mathau o Lwch	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Digwyddiadau	Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Diogelwch Tân	Pennaeth Asedau a Chynaliadwyedd
Cymorth Cyntaf	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Sylweddau Peryglus - Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)	Rheolwr Iechyd a Diogelwch

TEITL POLISI: Polisi Iechyd a Diogelwch

Perchennog: Prif Weithredwr

Arweinydd Atebol: Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu, Asedau a Chynaliadwyedd



Trefniadau Iechyd a Diogelwch ar gyfer Ymgynghori ar Faterion Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Thân (OHSF)	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Archwiliad Iechyd a Diogelwch	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Gwaith Poeth	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Gweithio ar eich pen eich hun	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Rheoli Ymddygiad Heriol	Pennaeth Tai
Rheoli contractwyr - Prosiectau adeiladu - Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015	Pennaeth Datblygu ac Adfywio
Codi a Chario	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Mamau Newydd a Menywod Beichiog	Rheolwr Gweithrediadau Pobl
Contractwyr nad ydynt yn CDM	Pennaeth Datblygu ac Adfywio
Sŵn	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Iechyd Galwedigaethol	Rheolwr Gweithrediadau Pobl
Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)	Rheolwr Iechyd a Diogelwch

TEITL POLISI: Polisi Iechyd a Diogelwch

Perchennog: Prif Weithredwr

Arweinydd Atebol: Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu, Asedau a Chynaliadwyedd



Radon	Pennaeth Asedau a Chynaliadwyedd
Asesu Risg	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Rhannu Gwybodaeth (Rhybudd a Marcwyr Llesiant)	Pennaeth Tai
Offer miniog/gwaredu gwastraff peryglu	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Gweithle Di-fwg	Swyddog Rheoli Cyfleusterau
Straen ac Iechyd Meddwl	Rheolwr Gweithrediadau Pobl
Camddefnyddio Sylweddau	Rheolwr Gweithrediadau Pobl
Hyfforddiant	Partner Pobl Dysgu a Datblygu



Trafnidiaeth	Arweinydd y Gwasanaeth Depo a Thrafnidiaeth
Gwasanaethau Tanddaearol ac Uwchben	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Cyfarpar Dirgrynu	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Ymwelwyr	Swyddog Rheoli Cyfleusterau
Cyfleusterau Llesiant	Swyddog Rheoli Cyfleusterau
Cyfarpar Gwaith/PUWER	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Gweithio ar Uchder	Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Egwyddorion gweithio'n fwy clyfar	Rheolwr Gweithrediadau Pobl
Pobl ifanc, pobl ddibrofiad a gwirfoddolwyr	Rheolwr Gweithrediadau Pobl

Cynlluniau Rheoli Iechyd a Diogelwch Landlord

Teitl	Arweinydd Atebol
Asbestos	Pennaeth Cydymffurfio a Rheoli Cyfleusterau (FM)
Trydan	Pennaeth Cydymffurfio a Rheoli

TEITL POLISI: Polisi Iechyd a Diogelwch

Perchennog: Prif Weithredwr

Arweinydd Atebol: Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu, Asedau a Chynaliadwyedd



	Cyfleusterau (FM)
Ystadau	Partner Busnes Masnachol a Chymunedau
Tân a Diogelwch	Pennaeth Asedau a Chynaliadwyedd
Gwresogi (gan gynnwys nwy)	Pennaeth Cydymffurfio a Rheoli Cyfleusterau (FM)
Mecanyddol	Pennaeth Cydymffurfio a Rheoli Cyfleusterau (FM)
Dŵr	Pennaeth Cydymffurfio a Rheoli Cyfleusterau (FM)